

AMBROSE, WILLIAM ('Emrys'; 1813 - 1873), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a llenor

Enw: William Ambrose
Ffugenw: Emrys
Dyddiad geni: 1813
Dyddiad marw: 1873
Rhiant: Elizabeth Ambrose
Rhiant: John Ambrose
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd 1 Awst 1813 ym Mangor, unig fab John ac Elizabeth Ambrose. Daethai ei hen-daid, John Ambrose, crydd, o Iwerddon i Gaerdybi yn 1715, a mab iddo ef, Robert, oedd ail weinidog y Bedyddwyr ym Mangor. Bu i Robert Ambrose ddau fab - Robert, tad y **Parch. W. R. Ambrose**, Talsarn, a John (tad 'Emrys') - a merch (mam **John Ambrose Lloyd**). Ceir enw tad 'Emrys' ymhlith aelodau cynharaf y Bedyddwyr ym Mangor. Buasai ei fam yn aelod yn Ebeneser gyda'r **Dr. Arthur Jones**, ond ymadawodd gydag eraill a sefydlu eglwys arall, Bethel (1843-55); bu hi farw yn 1853. Yn y Penrhyn Arms Inn, cartref cyntaf Coleg y Gogledd, yr oeddynt yn byw o 1813 hyd 1823, ac yno y ganwyd 'Emrys'.

Addysgwyd 'Emrys' yn Ysgol y Friars ac wedi hynny yng Nghaerdybi yn ysgol **W. Griffith**. Tua 1828 aeth yn brentis o ddilledydd mewn masnachdy yn Lerpwl. Ymaelododd yn y Tabernacl, Great Crosshall Street, o dan weinidogaeth **John Breese**. Yn 1834 aeth i Lundain i wasanaethu mewn masnachdy yn Borough Road. Ymunodd ag eglwys y Boro ac yno y dechreuodd bregethu ac ymddiddori mewn cyfansoddi barddoniaeth. Ymhen rhyw ddwy flynedd dychwelodd adref gyda'r bwriad o ymsefydlu mewn masnach ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Lerpwl. Yn y cyfamser, fodd bynnag, aeth yn gydymaith i **William Williams** ('Caledfryn') ar daith bregethu drwy Lyn ac Eifionydd. Ar y daith daeth i'w ran bregethu ym Mhorthmadog, a bu hynny'n achlysur ei wahodd i gymryd gofal yr eglwys yno am flwyddyn. Cydsyniodd yntau, ac ar derfyn y flwyddyn, 7 Rhagfyr 1837, urddwyd ef yn weinidog cyflawn i'r eglwys, ac yno y bu hyd ei farw, 31 Hydref 1873. Ym mynwent Capel Helyg, Llangybi, y claddwyd ef. Yn 1879 adeiladwyd capel er cof amdano a adnabyddir fel Y Capel Coffa, Porthmadog.

Bu'n wr amlwg iawn yn enwad yr Annibynwyr - yn enwedig yn y Gogledd. Sefydlodd amryw achosion megis Penrhyndeudraeth, Penmorfa, Cricieth, a Beddgelert. Ef oedd cynrychiolydd Cymdeithas y Beiblau yn y Gogledd am flynyddoedd, a dug hynny ef i gyswilt agos â'r eglwysi. Cydolygodd Y *Dysgedydd* o 1853 hyd 1873, lle y cyhoeddodd ei ysgrifau, 'Ein Hathrofau,' yn 1862, dan yr enw 'Phineas,' ysgrifau a barodd gryn gythrwfl ynglyn â choleg y Bala, a ddibennodd ym mrwydr y Ddau Gyfansoddiad (1877-85). Yn y misolyn hwn hefyd y cyhoeddodd ei ysgrifau adnabyddus, 'Adgofion fy Ngweinidogaeth.'

Rhoddir iddo le anrhydeddus ymhlith beirdd a llenorion y 19eg ganrif. Dechreuodd gystadlu yn ifanc mewn eisteddfodau, ac enillodd wobrau lawer. Daeth i sylw arbennig yn eisteddfod Aberffraw yn 1849 yng nghystadlueaeth yr awdl ar 'Y Greadigaeth.' Bu tro amryfus ynglyn â'r feirniadaeth. Yr oedd yno dri beirniad: barnai '**Eben Fardd**' mai awdl 'Emrys' oedd yr orau, ond daliai **J. Richards** mai eiddo '**Nicander**' a ddydil wobrwyo, ac er na chytunai y trydydd, **Joseph Jones**, â'r un o'r ddau ar y dechrau, newidiodd ei farn a rhoes ei bleidlais yn ffafwr '**Nicander**,' ac ef a gadeiriwyd. Bu dadlau brwd yn y Wasg am yn hir, a bernir i 'Emrys' gael cam. Y mae yn ei weithiau barddonol rai darnau sydd wedi ennill eu lle yn ein llenyddiaeth, ac yn eu plith rai emynau. Cyhoeddwyd *Gweithiau y Parch. W. Ambrose* (pigion o'i bregethau) yn Nolgellau (1875); yna, yn 1876, dan olygiaeth '**Gwilym Hiraethog**,' ddwy gyfrol, sef *Gweithiau Rhyddieithol y Parch. William Ambrose, Porthmadog*, a *Ceinion Emrys* (gweithiau barddonol), a cheir cyfrol, *Emrys*, yng Nghyfres y Fil.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 213, 267, iv, 477

Y Dysgedydd, Ionawr, Chwefror 1874

Hughes, *Canmlwyddiaeth Penuel, Bangor: hanes y Bedyddwyr ym Mangor, o gychwyniad yr achos hyd y flwyddyn 1914* (Bangor 1914)

Lewis, *Can-mlwyddiant y Tabernacl hanes Eglwys Y Tabernacl, Bangor, o'i chychwyniad yn Lon Pobty, yn y flwyddyn 1804, hyd agor y Tabernacl Newydd, ar Lon y Garth, yn y flwyddyn 1905; ynghyda pheth o hanes Dinas Bangor, a hanes cychwyniad yr enwadau ymneilltuol yn y dref* (1907)

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, 1880, 169

Llawysgrif Coleg Prifysgol Gogledd Cymru 2725

John Ambrose Lloyd. Hanes ei fywyd a'i weithiau. A ysgrifennwyd yn Saesneg gan ei fab, C. F. Lloyd â€; Cyfieithwyd a golygwyd gan Elfed (Wrecsam 1921)
The North Wales Gazette, 20 Tachwedd 1823

Darllen Pellach

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), tt.10-11

Erthygl Wicipedia: William Ambrose

Delweddau

Daniel Jones, *Rev. William Ambrose*

John Cochran, *Revd. W. Ambrose Port Madoc*

John Thomas, *Revd William Ambrose (Emrys, 1813-73)*

John Thomas, *Revd William Ambrose (Emrys, 1813-73)*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76084770

Wikidata: Q14480365

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Owen, R. G., (1953). AMBROSE, WILLIAM ('Emrys'; 1813 - 1873), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a llenor. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-AMBR-WIL-1813>

CC BY-NC-ND

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government